



Sut y gall Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe helpu?

Mae Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn un o bedwar tîm yng Nghymru sy'n gweithio i helpu i sicrhau bod cynigion am gyllid Ewropeaidd yn bodloni cyfleoedd a buddsoddiadau'r dyfodol ar lefelau rhanbarthol

Rydym yn gweithio ar draws siroedd Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, ac ar draws yr holl sectorau yn y rhanbarth er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau sy'n cael eu hariannu gan yr UE yn cael cyfranogiad effeithiol ac yn cael llwyddiant.

Mae gwaith Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn cefnogi'r rhanbarth i gyflawni ei [strategaeth adfywio economaidd](#) er mwyn gwella rhagolygon ein cymunedau, ein busnesau a'n heconomi.

Os ydych yn ystyried gwneud cais am gyllid gan yr UE neu eich bod eisoes yn gweithredu prosiect gan yr UE, mae croeso ichi gysylltu â ni i gael arweiniad am y modd y gallai eich prosiect gefnogi blaenoriaethau rhanbarthol, gan wneud cysylltiadau â phrosiectau eraill ac elwa ar astudiaethau achos ac esiamplau o arferion gorau.

Paratoi Cymru i ymadael â'r UE



Mae'r DU a'r UE wedi cytuno ar estyniad pellach i'r DU adael yr UE. Bydd y DU yn awr yn ymadael â'r UE ar 31 Ionawr 2020, ond gallai ymadael yn gynharach pe bai DU a EU yn cymeradwyo cytundeb ymadael.

Fel llywodraeth gyfrifol, rydym yn paratoi ar gyfer ymadael â'r UE gyda a heb gytundeb, gan gymryd camau i ddiogelu buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r wefan hon yn cynnwys cyngor i ddinasyddion, sefydliadau a sectorau ar draws Cymru am y camau sydd angen eu cymryd i baratoi ar gyfer ymadael â'r UE, ac fe fydd yn cael ei diweddarau'n rheolaidd.

Mae'r [Cynllun gweithredu ymadael heb gytundeb](#) hwn yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ynglŷn â goblygiadau posibl Brexit heb gytundeb. Mae'n esbonio'r camau sydd wedi'u cymryd i leihau eu heffaith cyn belled ag y bo modd.

Os bydd y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd heb gytundeb na chyfnod pontio, ni fyddai unrhyw newid i'r trefniadau presennol ar gyfer buddiolwyr prosiectau a ariennir gan yr UE ar hyn o bryd.

Mae hyn yn berthnasol i bob agwedd ar reoli'r prosiectau gan gynnwys cyflwyno a thalu hawliadau, gwiriadau dilysu, a chadw cofnodion perthnasol, sy'n elfen bwysig iawn.

Rhagor o wybodaeth [Brexit](#) heb gytundeb a phrosiectau a ariennir gan yr UE

Ddigwyddiad Blynyddol WEFO



Cynhelir ein digwyddiad blynyddol ar gronfeydd yr UE ddydd Iau 28 Tachwedd yng Ngwesty'r Marriott, Caerdydd. Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, Jeremy Miles yw'r prif siaradwr. Bydd Jeremy Miles AC, Gweinidog Brexit Llywodraeth Cymru, yn annerch y gynulleidfa fel y prif siaradwr yn y digwyddiad eleni. Mae sesiynau eraill yn cynnwys trafodaeth banel yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth o sectorau, dan gadeiryddiaeth Huw Irranca-Davies AC yn ei rôl fel Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE a Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru.

Am ragor o wybodaeth, ebestiwch wefo-communications@gov.wales.

Data Perfformiad Rhanbarthol

Mae'r tabl isod yn rhoi rhai o'r prif ffigyrau ar gyfer perfformiad gweithrediadau a ariennir gan yr ESI o fewn Rhanbarth y Bae Abertawe. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cymru'n elwa o gronfeydd yr UE [yma](#).

Dangosydd Perfformiad	Figyrau ar gyfer Rhanbarth Bae Abertawe
Mentrau a Gynorthwywyd ¹	1,996
Mentrau a Grëwyd ²	414
Swyddi a Grëwyd ³	3,601
Cyfranogwyr a Gynorthwywyd	50,229
Cyfranogwyr a Gefnogwyd I Gyflogaeth	4,297
Cyfranogwyr a Enillodd Gymwysterau	19,185
Cefranogwyr Mewn Addusg / Hyfforddiant	724

Ffynhonnell: SCEC, 31/08/2019

¹ Cyfanswm y Mentrau sy'n derbyn dangosyddion cymorth anariannol o dan Raglenni Gweithredol ERDF

² Cyfanswm y dangosyddion a gefnogir gan fentrau newydd o dan Raglenni Gweithredol ERDF

³ Cyfanswm y cynnydd Cyflogaeth mewn dangosyddion mentrau â chymorth o dan Raglenni Gweithredol ERDF

Menywod Busnes Blaenllaw yn Lansio Cynllun Sgiliau

Roedd Kathryn Austin, uwch-berchennog bwyta *Pizza Hut* yn y Deyrnas Unedig sy'n byw yng ngorllewin Cymru, a Catrin Jones, cydgyfarwyddwr Crwst, sef caffi a phopty yn Aberteifi sydd wedi ennill gwobrau, yn siaradwyr gwadd yn lansiad y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin a Chanolbarth Cymru. Daeth cannoedd o fusnesau i'r digwyddiad lansio, a gynhaliwyd yng Nghae Rasio Ffos Las, Sir Gaerfyrddin. Llywiwyd y cynllun cyflogaeth a sgiliau newydd, a ddatblygwyd gan Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru ar gyfer y tair blynedd nesaf, yn dilyn ymgynghoriad helaeth â'r gymuned fusnes.

Gofynnwyd am farn cyflogwyr ynghylch y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar hyn o bryd, yn ogystal â'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol yn sgil buddsoddiadau sylweddol megis Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, sydd werth £1.3 biliwn, a Bargaen Twf Canolbarth Cymru. Mae'r adroddiad wedi canfod y dylid gwella llwybrau dysgu a pharodrwydd yn y gweithle ar gyfer sectorau blaenoriaeth sy'n cynnwys diwydiannau digidol, creadigol, ynni, gweithgynhyrchu uwch, peirianeg, adeiladu, iechyd a gofal cymdeithasol, gwasanaethau ariannol, hamdden, twristiaeth a lletygarwch. Lansiwyd y cynllun newydd yn swyddogol gan Lee Walters AC Llanelli, Dirprwy Weinidog Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth.



Bydd canfyddiadau'r cynllun yn helpu i lywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid ar gyfer addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith. Dywedodd Lee Waters, Dirprwy Weinidog Llywodraeth Cymru dros Economi a Thrafnidiaeth: "Rydym yn byw mewn cyfnod heriol ac ansicr ac am y rheswm hynny mae'n hanfodol fod blaenoriaethau rhanbarthol clir mewn lle ar gyfer ffyniant yn y dyfodol. Fel Llywodraeth, rydym eisiau gweld model o ddatblygu economaidd sy'n canolbwyntio ar ranbarth a fydd yn annog twf ledled Cymru."

"Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn hanfodol i gyflawni hyn a bydd cynlluniau fel yr un a lansiwyd yn helpu i nodi'r meysydd a'r dalent y mae angen i ni eu datblygu dros y blynyddoedd i ddod er mwyn tyfu ein heconomi." Dywedodd Jane Lewis, Rheolwr Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru: "Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr iawn gyfraniadau pawb a oedd yn bresennol yn y digwyddiad lansio, gan gynnwys Kathryn a Catrin, sy'n esiamplau da ac ysbrydoledig i bobl fusnes ac entrepreneuriaid. "Bydd y cynllun hwn, a luniwyd ar sail adborth gan oddeutu mil o fusnesau, grwpiau clwstr diwydiant a sefydliadau partner, yn helpu Llywodraeth Cymru i ddarparu amgylchedd dysgu ôl-16 sy'n bodloni anghenion dysgwyr, diwydiannau a darparwyr."

"Yn ogystal ag arwain gwaith y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol dros y tair blynedd nesaf, nod y cynllun hefyd yw gwella llesiant economaidd De-orllewin a Chanolbarth Cymru, gan gadw ein pobl ifanc dalentog yn yr ardal drwy greu cyfleoedd iddynt gael swyddi o safon uchel yn agos i'w cartref. "Ond, yn ogystal â diwallu anghenion presennol busnesau, rydym hefyd wedi cynllunio beth fydd eu gofynion o ran sgiliau yn y blynyddoedd i ddod oherwydd ffactorau megis y galw pellach am sgiliau digidol, ynghyd â thwf sectorau sy'n cynnwys y diwydiannau creadigol, a buddsoddiadau mawr sydd ar y gweill megis Bargaen Ddinesig Bae Abertawe a Bargaen Twf Canolbarth Cymru."

"Mae'n hanfodol bod dysgu, prentisiaethau a lleoliadau gwaith yn cyd-fynd ag anghenion y diwydiant lleol yn awr, ac yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y sectorau blaenoriaeth yr ydym wedi'u nodi. "Dyma hefyd pam mae Menter Sgiliau a Thalentau yn rhan o Fargaen Ddinesig Bae Abertawe, er mwyn sicrhau bod modd manteisio ar y cyfleoedd gwaith y bydd y rhaglen fuddsoddi yn eu creu."



Cafodd dros 200 o fusnesau eu cynrychioli yn y digwyddiad lansio. Roedd Busnes Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau ymhlith yr arddangoswyr, ac roedd Jisc, Red Rock International a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru wedi arwain gweithdai. Roedd pedwar crefftwr prentis ifanc o Goleg Sir Gâr, Coleg Gŵyr Abertawe a Choleg Sir Benfro hefyd yn bresennol yn y digwyddiad, ar ôl iddynt gystadlu yn ddiweddar ym Mhencampwriaeth World Skills yn Kazan, Rwsia.

Dywedodd Mrs Lewis: "Mae cymaint o arloesedd yn digwydd ledled De-orllewin a Chanolbarth Cymru, gan gynnwys y prosiect rhanbarthol Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer sy'n rhan o Fargaen Ddinesig Bae Abertawe, datblygiad ceir sy'n cael eu pweru gan danwydd hydrogen ym Mhowys, twf y sector ynni morol yn Sir Benfro, ac ymchwil ym Mhrifysgol Aberystwyth i hyfywedd gwymon fel ffynhonnell ynni adnewyddadwy."

"Dyma ychydig enghreifftiau o'r datblygiadau cadarnhaol iawn sydd naill ai ar waith neu ar y gweill, ond mae'r cynllun cyflogaeth a sgiliau newydd yn gyfrwng allweddol o ran cefnogi'r arloesi hwn i sicrhau bod y newidiadau hyn yn creu cymunedau lleol mwy ffyniannus."

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.rlp.org.uk neu cysylltwch â'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol drwy ffonio 01554 742431.

Bargen Ddinesig Bae Abertawe



Bydd hwb ariannol o £18 miliwn ar gael yn fuan iawn i gychwyn rhaglen fuddsoddi Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sydd gwerth £1.3 biliwn, yn Ne-orllewin Cymru.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi telerau ac amodau drafft sydd ynghlwm wrth ryddhau cam cyntaf cyllid y Fargen Ddinesig, sy'n seiliedig ar gymeradwyo prosiectau Yr Egin ac Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau.

Gallai'r arian hwn gael ei ryddhau yn ystod yr wythnosau nesaf, os bydd y sefydliadau sy'n bartneriaid yn y Fargen Ddinesig yn cymeradwyo'r telerau a'r amodau drafft.

Mae cam un prosiect Yr Egin eisoes wedi'i gwblhau ar gampws Caerfyrddin Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a bydd ail gam y datblygiad ar y gweill cyn bo hir.

Yn Abertawe, mae prosiect y Fargen Ddinesig yn cynnwys arena ddigidol dan do, pentref digidol ar gyfer busnesau technoleg, a phentref blychau a datblygiad arloesol i fusnesau sy'n cychwyn arni.

Mae Cyd-bwyllgor y Fargen Ddinesig hefyd wedi cymeradwyo prosiect Ardal Forol Doc Penfro, gwerth £60 miliwn, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'w gymeradwyo'n derfynol.

Disgwylir y bydd Ardal Forol Doc Penfro, sydd dan arweiniad y sector preifat ac sy'n cael ei chefnogi gan Gyngor Sir Penfro, yn creu dros 1,800 o swyddi a bydd gwerth £73.5 miliwn y flwyddyn i economi Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Mae'r prosiect, sydd â'r nod o sicrhau bod Sir Benfro wrth wraidd arloesedd byd-eang ym maes ynni morol, yn cynnwys sawl elfen. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau i seilwaith Porthladd Penfro, Ardal Profi Ynni'r Môr, Parth Arddangos Sir Benfro, a Chanolfan Ragoriaeth Peirianeg Ynni Morol.

Agorwyd cam cyntaf Ardal Profi Ynni'r Môr ym mis Medi 2019.

Mae prosiectau eraill y Fargen Ddinesig sydd i'w cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor i'w hystyried cyn y Nadolig yn cynnwys datblygiad Pentref Llesiant diwygiedig wedi'i gynllunio ar gyfer Llanelli, ynghyd â chyfres o brosiectau Castell-nedd Port Talbot, sydd ar eu newydd wedd, sy'n canolbwyntio ar arloesi, tanwydd di-garbon, a dyfodol dur.

Yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn cael ei harwain gan Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro, a Chyngor Abertawe, mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae'r rhaglen fuddsoddi hon gwerth £1.8 biliwn i economi Dinas-ranbarth Bae Abertawe a bydd yn creu dros 9,000 o swyddi yn y rhanbarth yn y blynyddoedd i ddod.

Mae nifer o brosiectau rhanbarthol hefyd yn rhan o'r Fargen Ddinesig. Mae'r rhain yn cynnwys prosiect seilwaith digidol i roi hwb i gysylltedd digidol ym mhob rhan o Dde-orllewin Cymru, a Menter Sgiliau a Thalentau a fydd cynnig llwybrau i bobl leol allu cael mynediad at y swyddi o ansawdd uchel sy'n cael eu creu.

Yn ogystal â helpu i drechu tlodi tanwydd a diwallu'r angen am ragor o dai, mae prosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer hefyd yn cael ei gynllunio ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn ei gyfanrwydd.

Ewch i <https://www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru/> i gael rhagor o wybodaeth.

Hefyd gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am y Fargen Ddinesig drwy ddilyn @BargenDinesigBA ar Twitter a Facebook.

Busnes yn Abertawe yn sicrhau £12 miliwn gan yr UE ar gyfer prosiect ynni'r tonnau

Y bydd mwy na £12 miliwn o arian yr UE yn cael ei fuddsoddi mewn cynllun pwysig i gynhyrchu ynni o donnau'r môr.



Bydd yr arian hwn yn helpu i ariannu cam nesaf prosiect Marine Power Systems yn Abertawe i greu a lansio dyfais dan y dŵr a fydd yn gallu cynhyrchu ynni glân, fforddiadwy a dibynadwy yng Nghymru ac o amgylch y byd.

Cafodd dyfais WaveSub ei dyfeisio gan Dr Gareth Stockman a Dr Graham Foster, y ddau yn raddedigion o Brifysgol Abertawe a nhw sefydlodd Marine Power Systems yn 2008.

Gan ddefnyddio technoleg sydd â phatent a ddatblygwyd gan y cwmni, mae'r ddyfais yn gweithredu dan wyneb y dŵr drwy ddal dwysedd pŵer tonnau'r môr.

Yn dilyn profion llwyddiannus ar WaveSub sydd chwarter maint y ddyfais go iawn, bydd y buddsoddiad a gyhoeddwyd heddiw yn galluogi'r cwmni i ddatblygu prototeip maint llawn ac yn helpu i baratoi ar gyfer ei lansio yn y farchnad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Marine Power Systems i helpu i ddatblygu'r dechnoleg hon a'r cydsyniad ar gyfer WaveSub.

Wrth gyhoeddi'r £12.8 miliwn o arian yr UE yn ystod ymweliad â'r cwmni heddiw, dywedodd Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford:

Rydyn ni am i Gymru chwarae rhan flaenllaw yn sector ynni'r môr. Mae hynny'n golygu cefnogi datblygwyr o Gymru fel Marine Power Systems; gan barhau i ddenu datblygwyr o bedwar ban byd i Gymru ac allforio ein gwybodaeth, ein technoleg a'n gwasanaethau o gwmpas y byd.

Mae WaveSub yn brosiect sy'n torri tir newydd ac mae'r buddsoddiad hwn yn galluogi'r cwmni i gymryd cam mawr ymlaen i gyflawni'r nodau hyn. Dyma newyddion ardderchog i ddiwydiant ynni'r môr yng Nghymru".

Yn ogystal ag arian yr UE, bydd cam nesaf y prosiect yn cael ei ariannu drwy gyfle buddsoddi £5.5 miliwn, i'w ddarparu gan Marine Power Systems dros y misoedd nesaf.

Am ragor o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Ailddatblygu'r Plaza



Nod ailddatblygu'r Plaza yw aildefnyddio'r hen sinema adfeilledig at ddibenion economaidd gan ddarparu cyfleuster a fydd yn creu swyddi, yn annog twf economaidd ac yn cyfrannu at yr agenda trechu tlodi

Roedd Richard Burton yn ymwelydd rheolaidd â'r sinema a agorodd yn 1940 ac a gaeodd yn 1999.

Yn 2017, cynhyrchodd Michael Sheen raglen ddogfen i BBC Radio Four am y Plaza, dan y teitl Port Talbot Paradiso, oedd yn cynnwys cyfraniadau gan bobl fel yr actor, awdur a llywydd sioeau panel Rob Brydon a'r gantores opera Rebecca Evans

Mae'r adeilad yng nghanol tref Port Talbot, gerllaw cysylltiadau trafndiaeth ardderchog gorsaf Parcffordd sydd newydd ei hadnewyddu a'r Hwb Trafnidiaeth Integredig newydd.

Bydd yn darparu cyfleusterau meithrin busnesau hyblyg; ystafelloedd hyfforddi/swyddfa/cyfarfod; ardaloedd amlwrpas ar gyfer defnydd cymunedol; caffi/cyfleuster cegin hyfforddi; a man hyblyg ar gyfer defnydd cymunedol, e.e. mentrau cymdeithasol.

Mae'r cynllun hwn wedi derbyn cymeradwyaeth mewn egwyddor gan raglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i hariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Am ragor o wybodaeth cliciwch [yma](#)

£6.6m o gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd i gefnogi rhaglen cyflogadwyedd Coleg Gŵyr

Gwell Swyddi
Gwell Dyfodol

Better Jobs
Better Futures

Fel rhan o'r rhaglen 'Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol', caiff pum prosiect newydd eu darparu gan Goleg Gŵyr Abertawe mewn partneriaeth â chyflogwyr lleol.

Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at bobl sy'n ddi-waith, sydd wedi'u tangyflogi, neu sydd mewn swyddi cyflog isel. Bydd y rhaglen yn darparu ystod o gefnogaeth, megis hyfforddiant, mentora, lleoliadau gwaith, a chyfleoedd i ennill cymwysterau.

Amcan prosiectau 'Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol' yw gwella gobeithion gyrfaol a sgiliau pobl. Y nod yw helpu mwy na 3000 o bobl dros y ddwy flynedd nesaf, gan helpu i leihau tlodi ac anfantais yn ardal Abertawe.

Bydd y cymorth yn canolbwyntio ar fenywod sydd wedi'u tangyflogi, pobl dros 25 oed â lefel isel o ran sgiliau, neu bobl sydd â chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Bydd hefyd yn ffocysu ar bobl ifanc a phobl sydd wedi'u tangyflogi sy'n wynebu anfanteision megis anabledau neu gyfrifoldebau gofal plant.

Caiff cymorth ei roi hefyd i tua 120 o gyflogwyr er mwyn iddynt ddatblygu arferion gwaith mwy hyblyg a chynhwysol.

Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, Jeremy Miles, sy'n goruchwylio cyllid yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru:

Mae prosiectau 'Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol' yn cefnogi'r gwaith o greu gweithlu rhanbarthol llwyddiannus, sydd â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer economi sy'n fwyfwy dibynnol ar wybodaeth.

Mae Llywodraeth Cymru am wneud Cymru'n lle mwy llewyrchus i fyw a gweithio. Dyma enghraifft arall o gyllid yr Undeb Ewropeaidd yn cefnogi sefydliadau partner i ddiogelu economïau rhanbarthol at y dyfodol.

Dywedodd Mark Jones, Pennaeth Cyngor Gŵyr Abertawe:

Mae Cyngor Gŵyr Abertawe yn falch iawn o arwain y rhaglen hon, a fydd yn cyfrannu at un o'n prif flaenoriaethau ac a fydd yn diwallu un o anghenion penodol ein cymuned leol yn Abertawe.

Am ragor o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Cynllun gwaith cymunedol yn cael hwb gan gyllid yr UE

Mae'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol, sy'n cael ei rheoli gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, wedi cael £11.5 miliwn arall gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Bydd y cyllid yn caniatáu i sefydliadau trydydd sector ar draws Cymru gynnal prosiectau cymunedol gyda'r nod o wella sgiliau a chyflogadwyedd pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am dros chwe mis, neu sydd wedi'u heffeithio gan ffactorau fel cyflyrau iechyd neu broblemau iechyd meddwl sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Mae'r gronfa hefyd yn darparu lleoliadau gwaith am dâl am hyd at 26 wythnos, gyda'r nod o helpu i bontio tuag at gyflogaeth gynaliadwy.

Lansiwyd y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol yn 2015, ac mae eisoes wedi helpu dros 11,000 o bobl. Bydd y cyllid ychwanegol hwn gan yr UE nawr yn darparu cymorth i 8,700 o bobl eraill dros y tair blynedd nesaf, gan gynnwys tua 3,000 o bobl ifanc.

Am ragor o wybodaeth cliciwch [yma](#)

£29m o Arian yr UE ar gyfer Chwalu Rhwystrau i Gael Gwaith

Mae'r rhaglenni Cymunedau am Waith (CfW) a Gofal Plant a Chyflogaeth i Rieni (PaCE) ill dwy yn derbyn nawdd Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac yn cael eu darparu ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Byddan nhw nawr yn gallu para tan 30 Mehefin 2022.

Caiff £23.4m o arian ychwanegol yr UE ei neilltuo i'r rhaglen CfW a £5.6m yn ychwanegol i PaCE. Dyna ddod â chyfanswm cyfraniadau'r UE, Llywodraeth Cymru a'r DWP i'r ddwy raglen i £123 miliwn dros eu hoes.

Mae'r CfW yn cefnogi'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur ac sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, os oes gobaith realistig eu symud yn nes i'r gwaith ac i swydd. Yr un pryd, mae PaCE yn helpu rhieni i gael hyfforddiant neu waith os mai gofal plant yw'r rhwystr pennaf.

Ers eu cyflwyno yn 2015, mae bron 35,000 o bobl yng Nghymru wedi cael help Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol Llywodraeth Cymru, sef CfW, PaCE a Chymundau am Waith a Mwy, gyda thros 12,000 ohonyn nhw wedi cael gwaith.

[Cliciwch yma](#)

Cysylltwch a ni

Tim Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe,
Business Resource Centre,
Ty Parcyrhun,
Ammanford.
SA18 3EP

01554 742473 / swanseabayret@carmarthenshire.gov.uk

